# Cynnwys sy'n barod ar gyfer cyfathrebu

Right Support, Right Time: Unlocking the Power of OT

Mae cynnwys yma y gallwch ei ddefnyddio i siarad am Right Support, Right Time RCOT: **Unlocking the Power of OT** campaign.

It's designed to help you share the message clearly and confidently, whether you're writing for newsletters, websites, social media or other communications.

What's included:

- **Social media post text** and image descriptions – ready **to use across LinkedIn, Facebook, Instagram, Threads and BlueSky**
    - The image descriptions support accessibility and accompany campaign graphics which are downloaded separately or as part of the full comms pack download file, with filenames matched to the relevant post.

- **Narrative messaging** in three formats:
    - Introduction copy to be used with either the long, medium or short narrative messaging.
    - **Long version** (440 words) for web pages, briefings, presentations
    - **Medium version** (250 words) for newsletters, blogs, printed materials
    - **Short version** (100 words) for email intros, campaign summaries

Please keep the **first lines of each paragraph intact** in all narrative versions — they carry the heart of the campaign. Stick to the original language to keep the message consistent and clear across all channels.

## 1. Social media posts and image descriptions

**Post 1: Embedded in communities**

| | |
|---|---|
| **Graphic content:** | Cefnogaeth Iawn, Amser Iawn: Datgloi Pŵer ThG<br>Dylai Therapi Galwedigaethol fod yn rhan o fywyd bob dydd<br>rcot.co.uk/RightTimeOT |
| **Post text:** | Dylai therapyddion galwedigaethol fod mewn lleoliadau mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn dysgu ynddynt.<br>Mewn meddygfeydd ac ysgolion, maent yn cefnogi pobl cyn i'w anghenion waethygu. |
| ***Testun amgen:*** | Mae'r testun ar y llun yn dweud 'Dylai therapi galwedigaethol fod yn rhan o fywyd bob dydd' mewn ffont mawr, gydag enw'r ymgyrch 'Cymorth Iawn, Adeg Iawn' mewn ffont llai. Mae'r llun yn dangos darluniadau o rywun yn gweithio wrth ddesg a rhywun yn coginio. Mae logo'r RCOT a dolen yr ymgyrch rcot.co.uk/RightTimeOT ar y gwaelod. |

**Post 2: Saving costs, supporting lives**

| | |
|---|---|
| **Graphic content:** | Cefnogaeth Iawn, Amser Iawn: Datgloi Pŵer ThG<br>Mae therapi galwedigaethol yn arbed arian ac yn cefnogi adferiad<br>rcot.co.uk/RightTimeOT |
| **Post text:** | Mae therapi galwedigaethol yn arbed arian ar draws gwasanaethau iechyd a gofal drwy leihau derbyniadau i'r ysbyty ac anghenion gofal tymor hir. Mae'n ymarferol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gost-effeithiol. |
| ***Testun amgen:*** | Mae'r testun ar y llun yn dweud 'Mae therapi galwedigaethol yn arbed arian ac yn helpu pobl i wella' mewn ffont mawr, gydag enw'r ymgyrch 'Cymorth Iawn, Adeg Iawn' mewn ffont llai. Mae'r llun yn dangos darluniadau o rywun yn reidio sgwter a rhywun yn gweithio wrth ddesg. Mae logo'r RCOT a dolen yr ymgyrch rcot.co.uk/RightTimeOT ar y gwaelod. |

## 2. Content for newsletters, bulletins and websites

This section includes narrative messaging in three formats to help you share the campaign across different channels. You'll find an introductory paragraph followed by long, medium and short versions — ready to use in web pages, newsletters, blogs, printed materials, email intros and more. We encourage you to choose the format that best suits your audience and adapt the content to reflect your area of practice, while keeping the first lines of each paragraph intact to maintain consistency and clarity across all communications.

### Cyflwyniad (77 gair)

Mae Ymgyrch Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol - Cefnogaeth Iawn, Amser Iawn: Datgloi Pŵer Therapi Galwedigaethol yn tynnu sylw at rôl hanfodol therapi galwedigaethol ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'n galw am allu cael gafael ar therapyddion galwedigaethol yn gynharach, a newid i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ofal ataliol er mwyn diwallu anghenion pobl yn well a lleihau'r pwysau ar wasanaethau.

Darllenwch ymlaen i gael gwybod mwy am pam mae'n rhaid i therapi galwedigaethol fod yn ganolog i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

### Rhowch naratif hir, canolig neu fyr yr ymgyrch yma

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.rcot.co.uk/righttimeOT

### Fersiwn hir (440 gair)

**Mae Ymgyrch Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol - Cefnogaeth Iawn, Amser Iawn: Datgloi Pŵer Therapi Galwedigaethol yn tynnu sylw at rôl hanfodol therapi galwedigaethol ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.**

Mae'n galw am allu cael gafael ar therapyddion galwedigaethol yn gynharach, a newid i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ofal ataliol er mwyn diwallu anghenion pobl yn well a lleihau'r pwysau ar wasanaethau. Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth am neges yr ymgyrch a pham mae'n rhaid i therapi galwedigaethol fod yn ganolog i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Mae therapi galwedigaethol yn helpu pobl i aros yn iach yn hirach ac osgoi argyfyngau – yn enwedig pan fydd therapyddion galwedigaethol yn rhan o'r broses gofal yn gynnar.** Mae'n chwarae rhan hollbwysig ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a chymdeithas drwy alluogi pobl i gadw mewn cysylltiad a chymryd rhan yn y gweithgareddau sy'n bwysig iddyn nhw.

**Mae therapyddion galwedigaethol yn dod â sgiliau unigryw sy'n cael yr effaith fwyaf pan gânt eu defnyddio'n gynnar ac yn y ffordd iawn.** Mae eu cyfraniad amserol yn helpu pobl i

reoli newidiadau cyn iddynt fynd yn fwy cymhleth a sefydledig. Ar draws pob cam o fywyd, o blentyndod i henaint, therapyddion galwedigaethol sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf pan fyddant yn defnyddio eu harbenigedd llawn.

**Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, yn cefnogi adferiad o'r ysbyty i'r cartref, yn lleihau'r angen am ofal hirdymor ac yn arbed arian ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.** Maent yn gwneud hyn drwy ddarparu cymorth rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Drwy edrych ar y person cyfan - ei amgylchedd, ei arferion, ei nodau a'i heriau - maent yn cynnig atebion ymarferol wedi'u teilwra i fywyd bob dydd.

**Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu i leddfu'r pwysau ar wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg arbennig.** Boed hynny'n cefnogi pobl i fynd adref yn ddiogel o'r ysbyty, galluogi pobl i fyw yn y gymuned neu helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, addysg a chyflogaeth, mae therapyddion galwedigaethol yn helpu i atal anghenion rhag gwaethygu a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau acíwt.

**Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella cynaliadwyedd.** Maent yn defnyddio galwedigaethau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chysylltu pobl â'r gweithgareddau sydd o fudd i'w hiechyd. Drwy gyfrannu eu harbenigedd yn gynnar, maent yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn mynd yn sâl. Mae cymryd rhan mewn gwaith, addysg a hamdden yn gwella lles ac yn gallu darparu ffordd allan o dlodi. Mae newid cyfeiriad gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn atal derbyniadau i'r ysbyty, gan wneud gwell defnydd o adnoddau ac offer ysbyty, arbed amser a chostau, lleddfu'r pwysau ar y system a lleihau'r defnydd o ynni.

**Rydym am ganolbwyntio ar ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar ofal ataliol yn hytrach na gofal sy'n cael ei yrru gan argyfwng.** Yn lle ymateb i broblemau, mae angen i ni gyrraedd pobl yn gynt. Y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn fydd yn cael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn golygu cynnwys therapyddion galwedigaethol yn gynnar a'u galluogi i weithio mewn ffyrdd sy'n manteisio i'r eithaf ar eu harbenigedd.

**Rhaid gwreiddio therapyddion galwedigaethol yn lleoliadau mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwilio am gymorth ynddynt.** Dylent fod yn weladwy ac yn hygyrch ar draws y system gyfan, yn enwedig mewn gwasanaethau lleol, lle mae arwyddion cynnar o angen yn aml yn dod i'r amlwg. Er enghraifft, mewn meddygfeydd, ysgolion, gwasanaethau tai a thimau iechyd meddwl cymunedol.

**Rhaid i therapi galwedigaethol fod yn ganolog i ddyfodol iechyd, addysg a gofal - gan gefnogi cynlluniau ledled y DU i ganolbwyntio ar ofal mewn cymunedau a mabwysiadu dull gweithredu mwy ataliol.** Drwy gydnabod gwerth therapi galwedigaethol a galluogi therapyddion galwedigaethol i weithio yn y ffordd iawn, gallwn adeiladu system fwy rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cefnogi pobl i fyw'n dda ac i ffynnu.

## Fersiwn canolig (250 o eiriau)

**Mae therapi galwedigaethol yn helpu pobl i aros yn iach yn hirach ac osgoi argyfyngau – yn enwedig pan fydd therapyddion galwedigaethol yn rhan o'r broses gofal yn gynnar.** Mae'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o alluogi pobl i gadw mewn cysylltiad â'r gweithgareddau sydd bwysicaf, gan gefnogi llesiant ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a chymdeithas.

**Mae therapyddion galwedigaethol yn dod â sgiliau unigryw sy'n cael yr effaith fwyaf pan gânt eu defnyddio'n gynnar ac yn y ffordd iawn.** Mae eu cyfraniad amserol a'u harbenigedd

llawn yn helpu pobl i addasu i newid cyn i faterion waethygu, gan wneud gwahaniaeth sylweddol ar bob cam o fywyd.

**Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, yn cefnogi adferiad o'r ysbyty i'r cartref, yn lleihau'r angen am ofal hirdymor ac yn arbed arian ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.** Maent yn gwneud hyn drwy gynnig cymorth rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n ystyried yr unigolyn cyfan ac yn darparu atebion ymarferol bob dydd.

**Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu i leddfu'r pwysau ar wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg arbennig.** Boed hynny'n sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel, yn cefnogi byw yn y gymuned neu'n helpu pobl i gael mynediad at addysg, gwaith a hamdden, maent yn atal anghenion rhag cynyddu ac yn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau acíwt.

**Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella cynaliadwyedd.** Drwy hyrwyddo cynhwysiant ac ymyrraeth gynnar, maent yn cefnogi llesiant, yn lleihau risg tlodi ac yn helpu gwasanaethau i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

**Rydym am ganolbwyntio ar ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar ofal ataliol yn hytrach na gofal sy'n cael ei yrru gan argyfwng.** Mae cynnwys therapyddion galwedigaethol yn gynnar yn sicrhau'r effaith fwyaf ac yn eu galluogi i weithio mewn ffyrdd sy'n manteisio i'r eithaf ar eu harbenigedd.

**Rhaid gwreiddio therapyddion galwedigaethol yn lleoliadau mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwilio am gymorth ynddynt.** Dylent fod yn weladwy ar draws systemau lleol, gan gynnwys meddygfeydd, ysgolion a gwasanaethau tai.

**Rhaid i therapi galwedigaethol fod yn ganolog i ddyfodol iechyd, addysg a gofal.** Bydd cydnabod ei werth yn helpu i greu system ragweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n galluogi pobl i fyw'n dda ac i ffynnu.

### Neges fer (100 gair):

Mae therapi galwedigaethol yn helpu pobl i aros yn iach yn hirach ac osgoi argyfyngau – yn enwedig pan fydd therapyddion galwedigaethol yn rhan o'r broses gofal yn gynnar. Mae sgiliau unigryw therapyddion galwedigaethol yn cael yr effaith fwyaf pan gânt eu defnyddio'n gynnar ac yn y ffordd iawn. Maent yn helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, yn cefnogi adferiad ac yn lleihau anghenion gofal tymor hir. Maent yn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau ac yn helpu i atal anghenion rhag gwaethygu. Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella cynaliadwyedd.

Rydym am ganolbwyntio ar ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar ofal ataliol yn hytrach na gofal sy'n cael ei yrru gan argyfwng. Rhaid gwreiddio therapyddion galwedigaethol yn lleoliadau mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwilio am gymorth ynddynt. Rhaid i therapi galwedigaethol fod yn ganolog i ddyfodol iechyd, addysg a gofal.